Teithiau Llandysul



Casgliad o deithiau lleol

Croeso i Gerddwyr

Llandysul a Phont-Tyweli oedd yr ardal gyntaf yng Ngheredigion i gael statws Croeso i Gerddwyr. Felly mae wedi ymrwymo i gadw llwybrau troed ar agor a sicrhau fod busnesau lleol yn croesawi cerddwyr.

Cydnabyddiaeth

Yr ydym yn ddiolchgar i bob gwirfoddolwr a roddodd o'u hamser a'u harbenigedd i lunio'r llyfryn hwn.

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn fel rhan o '**Brosiect Darganfod Ceredigion**' Cyngor Sir Ceredigion, a weithredwyd gyda chymorth ariannol drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007–2013, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

www.llandysul-ponttyweli.co.uk
www.walkersarewelcome.org.uk
www.croeso.ceredigion.gov.uk

Ymwadiad
Er bod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb o ran y cyhoeddiad hwn, ni all dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau, amryfusedd nac esgeulustra nac am unrhyw fater sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â chyhoeddi'r wybodaeth a geir yn y llyfryn, neu'n deillio ohono.

Y map Arolwg Ordnans ar gyfer ardal y llwybrau yw Explorer 185.
Mapiau darluniadol yn unig sydd yn y llyfryn hwn, a dylid eu defnyddio ochr yn ochr â'r mapiau priodol a chwmpawd.

Diolch i'r canlynol am gefnogi'r llyfryn hwn:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llun clawr: Yr Afon Teifi (Hilary Walter)

CYNNWYS

		Tud.
1.	Taith Hanesyddol Tref Llandysul	3
2.	Taith Cefn Gwlad a Choetir Coed y Foel	13
3.	Taith Dolen Teifi	17
4.	Taith Gogledd Clettwr	21
5.	Taith Dyffryn Clettwr	25
6.	Cylchdaith Coedwig Coed y Foel i Gapel Dewi	29
7.	Taith Gogledd Llandysul / Pont-Tyweli	35
8.	Taith De Llandysul / Pont-Tyweli	41

Gradd y deithiau

A – Egnïol: Medru cerdded ar dir garw am hyd at 6 awr gyda sach deithio ysgafn.
B – Cymedrol: Medru cerdded ar dir garw am hyd at 4 awr gyda sach deithio ysgafn.
C – Hawdd: Medru cerdded ar dir garw am hyd at 2 awr gyda sach deithio ysgafn.

Y Côd Cefn Gwlad – *Parchu – Gwarchod – Mwynhau*

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch ymlaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel yr ydych chi'n eu cael nhw
- Gwarchodwch blanhigion ac anifeiliaid drwy fynd â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gŵn dan reolaeth
- Meddyliwch am bobl eraill

Dilynwch y Côd Cefn Gwlad lle bynnag yr ewch chi. Gallwch fwynhau cefn gwlad i'r eithaf a byddwch hefyd yn helpu gwarchod cefn gwlad nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gwybodaeth Cyffredinol

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth leol yn llyfrgell Llandysul
(ar agor o 10am tan 5pm, ond ar gau ar ddydd Mercher a dydd Sul).
Canolfan Croeso Aberteifi – Ffôn: 01239 613230
www.tourism.ceredigion.gov.uk/cymraeg/llandysul.htm
Ebost: CardiganTIC@Ceredigion.gov.uk
www.llandysul-ponttyweli.co.uk

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Cysylltwch â'r Ganolfan Groeso (gweler y manylion uchod) neu ymwelwch â rhan deithio gwefan Twristiaeth Ceredigion, sef: www.croeso.ceredigion.gov.uk

I gael manylion am holl drafnidiaeth gyhoeddus Cymru:
Traveline Cymru Ffôn: 01766 543100 (neu 0871 2002233 galwad ar raddfa premiwm) http://www.traveline-cymru.info

Bwcabws: gwasanaeth bws lleol sy'n hygyrch i bawb, sy'n gweithredu ar gais ac sydd wedi'i anelu at anghenion y teithwyr.
Bydd yn gweithredu o ddydd Llun tan ddydd Gwener o 7am tan 7pm.
Ffoniwch 01239 801 601
neu ewch at http://www.bwcabus.info

Tacsis: i gael gwybod am wasanaethau tacsi yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin, testunwch "CAB" at 83222 a chewch neges destun yn ôl a fydd yn rhoi rhifau cwmnïau tacsi lleol.

1. Taith Hanesyddol Tref Llandysul

Pellter ac amcangyfrif o'r amser: 1.1km (1.8 milltir) 1 awr ac eithrio seibiannau. Gellir cyfuno'r daith hon yn hawdd â theithiau cerdded eraill yn ardal Llandysul.
Tir: Mae'r daith yn mynd mewn cylch o amgylch y dref gyda darn byr ar y dechrau sy'n dringo rhiw. Mae'r bensaernïaeth o oes Edward a Fictoria ynghyd â'r siopau bychain niferus yn ei gwneud yn ffordd ddelfrydol o fynd am dro bach drwy hanes Llandysul. Hefyd, mae'n rhoi golygfeydd da o'r wlad sydd o gwmpas. Dylid cadw cŵn ar dennyn. Nid oes angen esgidiau cryfion.
Addas i: Unrhyw un.
Gradd: C yn unol â'r meini prawf ar dudalen 1.
Cychwyn: Maes parcio (P) Llandysul, sef OS SN418406.
Lluniaeth: Mae dewis o gaffis, bwytai a thafarnau traddodiadol yn Llandysul (www.llandysul-ponttyweli.co.uk) a lleolir meinciau picnic yn y parc sydd wrth ymyl y maes parcio a'r safle bws.
Toiledau Cyhoeddus: Llandysul – Maes parcio (sy'n hygyrch i bobl anabl ac sy'n meddu ar gyfleusterau newid babanod) OS SN418406.
Mapiau: Map O/S Explorer 185 1:25000 Castell Newydd Emlyn.

Disgrifiad manwl o lwybr y daith

Dylid darllen y rhan hon ar y cyd â'r wybodaeth isod sy'n disgrifio'r adeiladau hanesyddol yn unigol.

1 awr: Gadewch y maes parcio yn Llandysul a throwch ar y chwith i'r Heol Newydd. Ar ôl ychydig fedrau, trowch i'r dde i Lôn Wesley (mae'r arwydd yn dweud Canol y Dref). Cerddwch i fyny'r rhiw ac wrth y gyffordd â'r stryd fawr, croeswch y ffordd i Rhiw Seion. Ar ôl 30 metr, trowch i'r dde i Marble Terrace (neu daliwch ati i ddringo'r rhiw i ymweld â Chapel Seion a bwthyn Myfyrgell). Dilynwch Marble Terrace tan i chi gyrraedd Ffordd y Graig (160m), ewch/trowch tua'r chwith ac ar ôl 40m, trowch i'r dde ac ewch i lawr y gwaered hyd at y gyffordd â'r heol fawr. Croeswch y ffordd ac ewch i lawr ar hyd Lôn Letty hyd at Stryd yr Eglwys. Yn union ar ôl Gwesty'r Porth, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr o amgylch cefn yr eglwys i gyrraedd y maes parcio.



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2011.

Cyflwyniad

Mae Llandysul, Ceredigion, yn dref farchnad wledig a phrysur sy'n ymledu ar hyd ochr y bryniau serth sydd uwchben Afon Teifi a ffin Sir Gaerfyrddin. Mae ei chwaer-bentref, sef Pont-Tyweli, yn gorwedd yr ochr arall i Bont Llandysul ar lannau Sir Gaerfyrddin i'r afon. Mae'r enw Llandysul yn deillio o'r sant Celtaidd, Tysul (462 tan 544 OC), a sefydlodd eglwys yma. Ystyr *Llan* yw tir sanctaidd, mynwent neu eglwys, er bod cyfieithiadau cynharach hefyd yn cynnwys clostir.

Mae glaswelltir toreithiog yr ucheldir sy'n amgylchynu Llandysul ynghyd â rhediad cyflym yr Afon Teifi a'i hisafonydd yn gymorth i esbonio pam y ffynnodd Llandysul a Phont-Tyweli yma. Mae'r bryniau yn ardderchog i ddefaid bori a, chyn dyfodiad peiriannau ager neu drydan, roedd y dŵr a oedd yn pistyllo o'r afonydd yn troi'r melinau dŵr a oedd yn nyddu gwlân ac yn gweu dillad. Llwyddiant amaethyddol, twf y diwydiant gwlân a chynnydd yn y ffatrïoedd crysiau gwlanen a ddarparai waith yn yr ardal leol. Drwy ddyfodiad y rheilffordd i Bont-Tyweli yn ddiweddar yn y 19eg ganrif, cynyddodd masnach Llandysul â gweddill y Deyrnas Unedig.

Testun tristwch yw bod y diwydiant gwlân a fu'n llwyddiannus ar un adeg ynghyd â phoblogaeth y plwyf wedi dirywio, ond dethlir pwysigrwydd y diwydiant melinau i dreftadaeth Cymru yn Amgueddfa Genedlaethol Diwydiant Gwlân Cymru sydd i'w chanfod rai cilomedrau i ffwrdd yn Dre-fach Felindre (ar agor o fis Ebrill tan fis Medi, 10am tan 5pm bob dydd ac o ddydd Mawrth tan ddydd Sadwrn o fis Hydref tan fis Mawrth).

Trowyd melinau'r dref at ddefnydd arall ers llawer dydd, ond goroesodd nifer fechan ohonynt, gan gynnwys yr unig felin wlân fasnachol sydd ar ôl yng Nghymru a yrrir gan olwyn ddŵr, sef Melin y Graig yng Nghapel Dewi (gweler taith gerdded 4/5 Gogledd a De Dyffryn Clettwr a www.rockmillwales.co.uk i gael mwy o wybodaeth).

Gellir teimlo awyrgylch oes Edward a Fictoria o hyd yn Llandysul wrth i chi grwydro'r strydoedd a gellir ei weld yn aml ym mhensaernïaeth y siopau a'r adeiladau ar y Stryd Fawr. Mae hyn yn gwneud Llandysul yn lle delfrydol i fynd am dro bach drwy hanes y dref, gan danio dychymyg dyn ynglŷn â sut yr oedd bywyd ganrif a mwy yn ôl. Hefyd, rhydd y daith olygfeydd godidog o'r dref a'r wlad o'i chwmpas.

Am y daith gerdded

Wrth adael y maes parcio, yr adeilad ar y dde **(1)** yw'r gyn Ysgol Genedlaethol a oedd yn cael ei chynnal gan yr Eglwys. Wedi'i hagor ym 1851 a'i chau tua chan mlynedd yn ddiweddarach, mae erbyn heddiw yn gartref i'r llyfrgell a'r ystafelloedd cyfrifiadurol. Hefyd mae arddangosfa i fyny'r grisiau o hanes lleol. Mae tŵr cloc yr adeilad yn nodwedd ddiddorol: dim ond ar dair ochr y mae wyneb cloc arno oherwydd y gwrthododd perchnogion ystâd Dôl-Llan ar yr ochr arall i'r afon â rhoi dim arian tuag at ei adeiladu. Dyna oedd ffordd pobl y dref o dalu'r pwyth yn ôl i berchnogion yr ystâd drwy eu hatal rhag gweld y cloc!

Ar ôl gadael y maes parcio, mae'r daith yn fuan yn cyrraedd Lôn Wesley, sef yr hen brif dramwyfa drwy dref Llandysul, tan yr adeiladwyd yr Heol Newydd ym 1895. Yr adeilad cyntaf ar y chwith **(2)** yw D.R. Jones, yr haearnwerthwr a ddathlodd 90 mlynedd o gynnal busnes yn 2009! Yn y gorffennol, bu hefyd yn gwerthu beiciau a beiciau modur yn ogystal â nwyddau a pheiriannau amaethyddol. Edrychwch uwch eich pen i weld yr hen hosiad a arferai gael ei ddefnyddio i godi'r cyflenwadau i'r adeilad.

Wrth i chi ddringo Lôn Wesley, mae'r tai ar y chwith yn dal i feddu ar y drysau a'r ffenestri gwreiddiol **(3)** sy'n rhoi'r argraff o sut olwg oedd ar Landysul gynt. Yn wreiddiol, Capel Wesleiaid Peniel oedd yr adeilad mawr ar y dde **(4)** sef Canolfan Ieuenctid Tysul. Cafodd ei sefydlu tua 1806 gan y Parch. Edward Jones a bregethai fel arfer ar yr esgynfaen ger y Kings Head. Fe'i cyhuddwyd un diwrnod o fod yn feddw ac i roi ateb adroddodd y pennill hwn ar ddiwedd y bregeth:

Maent yn dweud dros fryn a bro,
Fy mod yn feddw a ma's o ngho';
Dwi'n amau dim na' meddwdod yw
Ar felus win o seler Duw.

O *Hanes Plwyf Llandysul*
gan Y Parch WJ Davies.

Ar ben rhan goblog Lôn Wesley ar gyfer cerddwyr, cyrhaeddwch Sgwâr Bradford, sef y stryd fawr heddiw. Mae stepen drws flaen yr adeilad ar y chwith **(5)** yn dwyn yr enw Peglers. Cadwyn siop fwyd oedd honno yn y 1950au, ond bu'r adeilad hwn yn siop fwyd ac yn siop gigydd ers y 1900au cynnar fan leiaf. I'r dde **(6)** ceir Tŷ Bradford, a agorwyd gan John Daniel Thomas ym 1861 yn frethynwyr, siop fwyd a haearnwerthwyr. Arhosodd y siop hon yn ddilladwyr tan ddiwedd y 1970au.



Banc oedd yr adeilad sydd gyferbyn â Thŷ Bradford, sef Richmond Villa **(7)** yn wreiddiol. Preswylfa breifat sydd yno bellach.

Wrth i chi ddringo Rhiw Seion, uwchben gwelwch Gapel Seion **(8)**, a gwblhawyd ym 1871. Y pensaer oedd y Parch. Thomas Thomas, a gynlluniodd tua 900 o gapeli drwy Gymru benbaladr. Rachel Evans oedd y person cyntaf i'w chladdu yn y fynwent ym 1878.

Ymhellach i fyny'r rhiw ar y chwith ceir bwthyn bach gwyn o'r enw Myfyrgell **(9)**. Dyma lle yr agorodd William Thomas, a adwaenwyd yn well wrth ei enw barddonol Gwilym Marles (a anwyd 1834) ei ysgol ramadeg gyntaf (mae plac er cof amdano ar y tŷ). Pregethwr yr Undodiaid ydoedd o 1860 ymlaen yng nghapel Undodiaid cyntaf Cymru yn Llwynrhydowen ac ystyrir mai ef oedd sylfaenydd Undodiaeth fodern yng Nghymru, ond roedd hefyd yn eirolwr ffyrnig a radicalaidd yn erbyn landlordiaeth ac yn eiriolwr y ffermwyr dros ryfel y degymau (sef system drethu gynnar). Cythruddodd hynny'r landlordiaid lleol gan arwain at wrthdaro ym 1876 pan gafodd ef a'i gynulleidfa eu gyrru allan o'r capel. Dilyniant trist i'r digwyddiadau fu i hynny gael cymaint o effaith andwyol arno nes iddo farw cyn pryd yn 45 mlwydd oed.

Mae Thomas a Marlais yn rhoi syniadau i ni am gysylltiad â llenor mwyaf enwog Cymru. Ef oedd hen ewythr Dylan Thomas ar ochr y tad a fu yn ôl pob tebyg yn gryn ddylanwad ar ei nai, D.J. Thomas, sef tad Dylan. Rhoddwyd ei enw canol, Marlais, i Dylan er anrhydedd iddo a chredir mai ef oedd yr ysbrydoliaeth am gymeriad y Parch. Eli Jenkins yn y ddrama Under Milk Wood.

O ddychwelyd i lawr y gwaered o'r capel, mae'r daith gerdded yn dilyn Marble Terrace **(10)** ar y chwith. Mae trigolion y rhes hon o dai yn ymddangos ar gyfrifiad 1871 a bod eu galwedigaethau yn cynnwys ysgolfeistr, myfyriwr diwinyddiaeth, gwraig morwr ac uwcharolygydd yr heddlu. Yn rhif 2, roedd Miss Hill yn rhedeg yr ysgol breifat olaf i'w chynnal yn Llandysul.

Ymhellach ar hyd y ffordd hon, edrychwch i lawr tua'r dde ar Gapel y Graig **(11)**, sef capel Undodiaid Cymru a hwnnw mewn arddull Gothig. Fe'i adeiladwyd yn 1884 ac fe'i cynlluniwyd gan y pensaer John Wills o Derby, Lloegr. Ailadeiladwyd rhan o'r capel ym 1906 ac ychwanegwyd y tŵr. Mae'r ailadeiladu yn adlewyrchiad o gynnydd y capeli yn gyffredinol – gan mlynedd yn ôl, byddai'r bobl leol wedi bod yn gwrando ar eu pregethwr y tu allan, wrth ymyl coed ac wedyn mewn hen ysguboriau a siediau ac, yn y diwedd, adeiladodd y cynulleidfaoedd lefydd addoli parhaol.

I'r chwith, ychydig ymhellach ar hyd y daith, ceir rhai o fythynnod hynaf y pentref, sef o ddechrau'r 1800au – Bythynnod Penwalkau **(12)**. Dengys cofnodion y cyfrifiad bod Sarah James, gweddw saer, James Jones, glöwr a John Williams, gweithiwr amaethyddol, yn eu meddiannu ym 1861.

Oddi yma, mae golygfa fendigedig o lefelau gwahanol tref Llandysul gyda'i ffyrdd bychain cyfochrog a llwybrau troed bob hyn a hyn sy'n arwain i lawr at y lefel nesaf. Y strwythur hwn a roddodd statws cadwraeth bentref i Landysul.

Gelwir Bryn Hyfryd neu Sunny Hill ar yr ardal hon o Landysul ac mae'r adeilad mawr ar y chwith **(13)** yn gartref i Delynau Teifi erbyn hyn. Ysgol Elfennol y Sir ydoedd yn wreiddiol a gelwid yr Ysgol Uchaf arni yn lleol. Cafodd ei hagor ym 1898, sef yr un pryd ag Ysgol newydd y sir, sef Ysgol Dyffryn Teifi erbyn hyn. Mae'r adeilad hwn erbyn hyn yn gartref i unig wneuthurwr telynau Cymru a gellir trefnu ymweliadau drwy apwyntiad (01559 363222, www.welsh-harps.com).

Mae'r ffordd yn dechrau mynd i lawr at gyffordd erbyn hyn; roedd y tri bwthyn sydd gyferbyn yn ysgol breifat yn wreiddiol. Cafodd ei hagor tua 1838 **(14)**. Mr Evans oedd y Prifathro a fu farw ym 1845. Tua'r adeg honno, daeth yn Ysgol Brydeinig ac yn ddiweddarach yn Ysgol y Bwrdd. Mae wedi'i hadnewyddu gyda theimlad erbyn hyn a gellir gweld o hyd ble yr oedd y ffenestri gwreiddiol.

Ar ôl mynd tua'r dde ymhellach ar hyd y bryn, dewch o hyd i gyffordd â'r ffordd fawr. Yr adeilad ar y dde **(15)** oedd yr efail. Cafodd ei hadeiladu gan Henry Jones yn y 1860au ac arhosodd yn siop y gof tan ganol y 1900au. Roedd plant â defaid ar eu dwylo yn eu trochi yng nghafn dŵr y gof a oedd yn fodd lleol o iacháu'r broblem!

Gyferbyn â'r efail, ceir Market Stores **(16)**, sydd bellach yn dri thŷ. Yn 1881, roedd siop fwyd yn yr adeilad trawiadol hwn o eiddo David Lewis, tad John David Lewis, sef sylfaenydd Gwasg Gomer.

Ymhellach i fyny Stryd y Ffynnon ceir Ffynnon Tysul, sef un o ffynonellau dŵr cynharaf y pentref. Ym 1892, cyfrannodd y pentrefwyr arian i adeiladu tanc dŵr a phwmp i wella effeithlonrwydd y cyflenwad dŵr. Gellir gweld pwmp y pentref ar y gornel sydd gyferbyn â'r efail **(17)**.

Ar ôl mynd i lawr ar hyd Lôn Letty, rydych yn mynd heibio i Westy'r Porth **(19)**. Mae'n debygol bod gwesty ar y safle hwn ers y Canol Oesoedd ac mae hen banelau a thrawstiau derw yn dal i fodoli yn yr ystafelloedd cyhoeddus. Mae'r ffenestri bwaog yn dangos lle yr aferai'r stablau fod a defnyddid yr ystafell ymgynnull uwchben i gynnal dawnsfeydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu milwyr Americanaidd yn eu mynychu pan

oeddent yn paratoi'n lleol ar gyfer y glaniadau ar D-Day. Bu'n bencadlys lleol Clwb Beicio Prydain Fawr a gellir gweld yr arwydd o hyd ar y wal flaen. Mae treftadaeth feicio Llandysul yn dal i fod yn ei hanterth heddiw wrth i Lwybr Cenedlaethol Sustrans Rhif 82 Lôn Teifi (rhwng Aberystwyth ac Abergwaun) fynd heibio i ben blaen Gwesty'r Porth.

Yr Union Inn oedd yr adeilad sydd gyferbyn â Gwesty'r Porth **(20)** yn arfer bod. Fe'i hagorwyd yn 1707 ac fe'i henwyd i ddathlu'r undeb rhwng Lloegr a'r Alban.

Y drws nesaf y mae Siop Channing **(21)**. Bu Thomas Protheroe, masnachwr menyn, yn meddiannu'r adeilad hwn yn 1871. Parhaodd busnes siop fwyd, yn ddiweddarach o eiddo'r teulu Channing yn y siop hon tan yn ddiweddar yn y 1970au. Drwy dwf ym maes moduro, gosodwyd hyd yn oed bwmp petrol y tu allan i'r siop.

Yn union ar ôl mynd heibio i Westy'r Porth ac yn weladwy o'r maes parcio y mae'r tro ar y chwith sy'n arwain at eglwys gerrig fawreddog Sant Tysul **(22)**. Mae'r eglwys yn werth ymweld â hi (gellir prynu arweiniad a hanes byr y tu fewn). Ewch i mewn i'r fynwent drwy'r porth. Roedd Sant Tysul yn olrhain llinach godidog – roedd yn fab i Corun, mab Ceredig, a oedd yn fab i Cunedda, penadur Gogledd Prydain. Gwrthsafodd Ceredig yn erbyn ymosodiad ar Gymru gan y Sgotiaid Gwyddelig yng nghanol y bumed ganrif ac, am ei ddewrder, cafodd ei wobrwyo â thir yn Ne-Orllewin Cymru o'r enw Tyno-Coch. Yn ddiweddarach, daethpwyd i alw Ceredigion ar Wlad Ceredig. Serch hynny, roedd gan Geredig fab arall, Sant, a daeth i fod yn dad i fab o'r enw Dewi a'r mab hwnnw, sef cefnder Tysul, a ddaeth yn Nawddsant Cymru, sef Dewi Sant.

Saif y garreg ar sylfeini i fan addoli a greodd Sant Tysul ac sydd o gryn arwyddocâd yn hanes yr ardal. Fwy na thebyg y gwnaed yr eglwys wreiddiol o blethwaith a dwb gyda tho gwellt o gawn ynghyd â charreg nadd arw a ddefnyddid yn allor. Yr eglwys bresennol yw adeilad hynaf Llandysul ac mae llawer ohoni yn dyddio o'r 13eg ganrif. Mae'n debyg bod ei tho gwellt yn dal i fod arni tan 1783 pryd y dechreuodd cyfres o adferiadau a barhaodd dros y gan mlynedd a hanner nesaf.
Codwyd adeilad gwreiddiol eglwys gerrig Sant Tysul, gan gynnwys naddiad y ffenestri a'r drysau, o gerrig tywod a llechi lleol. Serch hynny, disodlwyd y ffenestri yn ddiweddar gan ddefnyddio carreg Caerfaddon. Y tu mewn, gwnaed y pulpud o garreg galch Jurasig, o bosib o Painswick yn Swydd Gaerloyw. Roedd y tŵr yn meddu ar ddwy gloch yn wreiddiol, ond gwnaed pedair arall yn niwedd y 18fed ganrif gan yr enwog wneuthurwr clychau, Thomas Rudhall o Gaerloyw. Mae gan glochyddion heddiw gryn feddwl o'r ystafell canu clychau.

O edrych yn fwy manwl, gellir gweld y pedwar math gwahanol o garreg sy'n dangos y cyfnodau gwahanol pan dyfodd y tŵr yn ei uchder o 6.1m i 21.4m (20 i 70 troedfedd). Ystyrir bod y ffenestr sydd â wal wedi'i chodi drosti ar fur y de yn un o'r darnau hynaf yng Nghymru gyfan o bensaernïaeth eglwysig ar ffurf carreg. Hefyd, mae organ bib hynafol yn yr eglwys a osodwyd yno ym 1899.

Mae gan yr eglwys rai creiriau cred unigryw a phwysig o Gristnogaeth gynnar yng Nghymru. Daethpwyd o hyd i allor hynafol sydd ag endoriadau Cristnogol cynnar arni gerllaw yng Nghoed y Foel ac fe'i hymgorfforir yn yr allor gerrig sydd yng Nghapel y Forwyn. Yn y festri gangell, mae casgliad o gerrig ag arnynt arysgrif. Yn eu plith, ceir y Garreg Felfor sydd ag arysgrif ddwyieithog arni yn Lladin ac yn Ogam er cof am Velvoria, merch Brohomaglus. Darn yw'r garreg o un fwy o faint a oedd yn ffurfio sticil a oedd yn arwain i'r eglwys. Ni ddylid bychanu pwysigrwydd y garreg hon. Mae'n un o 400 yn unig yn y byd sy'n dangos wyddor yr iaith Geltaidd hynafol, sef yr Ogam. Mae'n bosib ei bod yn hŷn na Christnogaeth a chredir ei bod yn deillio o Iwerddon sy'n rhoi mwy o dystoliaeth bod y Gwyddelod wedi ymsefydlu yma rhwng 400 a 500 OC. Mae tarddiad yr Ogam yn ansicr, ond y ddealltwriaeth bresennol yw bod y llinellau yn symboleiddio enwau'r ugain prif lythyren sydd hefyd yn enwau ar ugain o goed a oedd yn sanctaidd i'r Derwyddon.

Ers yr adeg pan sefydlwyd yr eglwys yn y 6ed ganrif, byddai wedi bod yn ganolog i fywyd yr ardal a byddai Llandysul wedi tyfu o'i chwmpas gyda phob un o'r prif heolydd yn arwain at yr eglwys a'r fan i groesi'r afon. Ni chredir yr adeiladwyd y Stryd Fawr y gwyddom amdani heddiw tan i'r bont gael ei chodi rhwng Llandysul a Thyweli.

Os dilynwch y llwybr o amgylch yr eglwys, edrychwch tuag at yr afon ar blas Dôl-Llan **(18)**. Y plas pwysig hwn o oes y Brenin Siôr oedd man marwolaeth ryfedd yr uwchgapten Cass ym 1929. Daethpwyd o hyd iddo yn farw yn ei ystafell wely ag anaf yn dangos ei fod wedi'i saethu â dryll a chyhoeddwyd yn y wasg mai hunanladdiad ydoedd. Ond y si leol ar led oedd mai'r bwtler a wnaeth! Roedd yr uwchgapten Cass yn ffigwr poblogaidd ym mywyd y pentref ac aeth cryn nifer o bobl leol i'w angladd. Sawl blwyddyn yn ddiweddarach, roedd adeiladwr lleol yn gweithio y tu allan i'r adeilad a honiai iddo weld ysbryd yr uwchgapten Cass drwy'r ffenestr yn cerdded ar y grisiau. Wrth gwrs, gallai hynny fod wedi bod yn adlewyrchiad yr haul ar y ffenestr.

Dilynwch y llwybr drwy'r fynwent hyd at y giatiau duon haearn lle y byddwch yn dychwelyd i'r maes parcio.



2. Taith Cefn Gwlad a Choetir Coed y Foel

Pellter ac amcangyfrif o'r amser: 9km (5.6 milltir) 3 awr ac eithrio seibiannau. Gellir cydgysylltu sawl un o deithiau cerdded ardal Llandysul i gynyddu neu fyrhau'r pellter cerdded.
Tir: Cyn pen byr o dro, cludir y cerddwyr o dref brysur Llandysul i dir amaeth agored ynghyd â heddwch a llonyddwch coetir Coed Cadw. Mae'r golygfeydd o ben y bryniau yn syfrdanol ac mae'r daith yn dod i ben wrth ymyl yr afon Teifi brydferth. Mae'r llwybrau weithiau yn arw ac mae rhai rhiwiau i'w dringo. Argymhellir esgidiau cerdded a socasau ar ôl glaw trwm. Mae yno sticlau, ond gwyliwch am ddiweddariadau wrth i giatiau gael eu gosod yn eu lle. Dylid cadw cŵn ar dennyn ar y darnau sydd ar dir amaeth.
Addas i: Gerddwyr cymharol heini.
Gradd: B yn unol â'r meini prawf ar dudalen 1.
Cychwyn: Maes parcio (P1) Llandysul, sef OS SN418406 neu faes parcio coetir Coed Cadw, sef OS SN428425 (P2).
Lluniaeth: Mae dewis yn Llandysul o gaffis, bwytai a thafarnau traddodiadol (www.llandysul-ponttyweli.co.uk) a lleolir meinciau picnic yn y parc sydd wrth ymyl y maes parcio a'r safle bws.
Toiledau Cyhoeddus: Llandysul – Maes parcio (sy'n hygyrch i bobl anabl ac sy'n meddu ar gyfleusterau newid babanod) OS SN418406.
Mapiau: Map O/S Explorer 185 1:25000 Castell Newydd Emlyn.

Opsiynau gwahanol:
Opsiwn byrrach – Dechreuwch ym maes parcio coetir Coed Cadw (P2). Serch hynny, bydd hyn yn osgoi'r rhan olaf a phrydferth ar hyd glannau'r Afon Teifi (4km, 40 munud yn fyrrach).

Opsiwn hirach – Cyfunwch y daith gerdded hon â cherdded taith 3 o chwith, sef Dolen Teifi (3.5km 1 awr a chwarter ychwanegol).



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2011.

Disgrifiad manwl o lwybr y daith

Llandysul i faes parcio Ymddiriedolaeth Coetir Coed y Foel (P2)

20 munud: Trowch i'r dde allan o faes parcio canol tref Llandysul i Stryd yr Eglwys ac yn fuan ar ôl mynd heibio i Westy'r Porth, trowch/ewch i'r dde i gerdded heibio i res o dai ac i lôn wledig (sy'n gul ar adegau). Ar ôl 500 metr, ewch heibio i adeilad mawr fferm/melin ar y chwith (Melin Abercerdin) a thros bont fechan sy'n croesi'r afon Cerdin. Ar ôl 160 metr, trowch i'r dde (arwydd Capel Dewi) a dilynwch y ffordd heibio i goedwig Dan-Coed Mawr a thŷ Bryn Teifi tan iddi droi tua'r chwith a dechrau dringo rhiw serth. Mae maes parcio Ymddiriedolaeth Coetir Coed y Foel ar y chwith yn union ar ôl nant fechan.

Maes parcio Ymddiriedolaeth Coetir Coed y Foel i fferm Blaencwm

1 awr: O gefn y maes parcio (giât a bwrdd gwybodaeth), dilynwch lwybr, gan groesi nant Gwenffwrdd i fynd i mewn i'r goedwig, wedyn dilynwch y llwybr is. Ar ôl 700 metr, mae'r llwybr yn troi'n sydyn i'r chwith ac yn dringo rhiw am sawl metr cyn gwyro yn ôl i'r dde (mainc). 100 metr ymhellach, mae'r llwybr yn troi yn sydyn tua'r dde (mae arwydd) ac yn mynd i lawr dros gyfres o stepiau. Ar waelod y gwaered, trowch i'r dde a dilynwch lwybr ag arno arwyddion yn ôl i'r chwith at nant (cenllif fechan ar ôl iddi fwrw glaw trwm). Croeswch y nant ac ewch yn igam-ogam i fyny'r rhiw at giât a llwybr coedwig ①, trowch i'r dde a dewch yn syth ymlaen (y tro i'r chwith ar ôl 30 metr yw taith gerdded rhif 6, sef Coed Foel i Gapel Dewi).

Dilynwch y llwybr heibio i dŷ Cwm Cadifor (anwybyddwch y llwybr i'r dde yn fuan ar ôl y tŷ) hyd at giât, wedyn trowch i'r chwith i gyrraedd sticil i fyny ac i'r chwith i'r prif lwybr. Croeswch y sticil a dilynwch lwybr anelwig ychydig i'r chwith ar draws y cae i gyrraedd sticil ②, croeswch hi ac anelwch am gornel dde'r cae a sticil arall (mae fferm Blaencwm i'r chwith iddi).

Ffordd wahanol o fynd o ③: Croeswch y sticil i'r cae a throwch yn syth i'r chwith dros sticil arall i lôn fferm. Croeswch y sticil ar yr ochr arall i lôn y fferm a throwch i'r dde gan ddilyn ffin y cae dros ffensys i'r lôn. Trowch i'r dde a cherddwch heibio i'r ffermdy i ailymuno â'r llwybr fel y nodir isod.

Fferm Blaencwm i'r ffordd fawr

Deugain munud: Ar ôl croesi'r sticil, trowch i'r dde a dilynwch lwybr fferm yn ôl tua'r de, tuag at yr Afon Teifi, ac ar ei ddiwedd y mae dwy giât, ewch drwy'r giât chwith ④ (arwydd ffordd geffylau). Dilynwch ffin dde'r cae ac, yn union cyn giât, trowch i'r dde drwy giât arall (arwydd llwybr troed a ganiateir o dan gynllun Tir Gofal). Dilynwch ffin y cae ar yr ochr chwith hyd at giât, trowch i'r chwith drwy'r giât ac yn syth o'ch blaen, ewch drwy giât arall. Dilynwch ymyl planhigfa gul hyd at giât. Trowch i'r chwith a dilynwch ffin cae ar y chwith i lwybr fferm a giât yng nghornel chwith y cae. Ewch drwy'r giât ac ar ôl ychydig fedrau trowch i'r dde a dilynwch y ffin cae ar y dde tuag at giât. Yn fuan ar ôl y giât ⑤ (man gwylio panoramig), ewch i lawr drwy'r cae tua'r chwith i gyrraedd ymyl chwith y goedwig. Ewch drwy giât, trowch i'r dde ac ewch i lawr yn serth gan ddilyn ymyl y goedwig gymysg. Ar y gwaelod, trowch i'r dde i groesi sticil i'r ffordd fawr.

Yn y fan hon ar y daith gerdded, mae modd troi i'r chwith a dilyn taith gerdded rhif 3, sef Dolen Teifi drwy ei cherdded o chwith.

Ffordd Fawr i Landysul heibio i'r Afon Teifi

Ar y ffordd fawr, trowch i'r dde. Cerddwch i lawr y gwaered yn hawdd am 350 metr a throwch i'r chwith (arwydd Llanfair).

Yn y fan hon, mae modd dychwelyd i faes parcio coetir Coed y Foel – peidiwch â throi i'r chwith, daliwch i fynd yn syth ymlaen heibio i fferm Faedre Fawr i gyrraedd y maes parcio.

3. Taith Dolen Teifi

Pellter ac amcangyfrif o'r amser: 5.63km (3.5 milltir) 2½ awr, ac eithrio seibiannau. Gellir cydgysylltu sawl un o deithiau cerdded ardal Llandysul i gynyddu neu fyrhau'r pellter cerdded.
Tir: Mae'r daith syml a phrydferth hon yn un y gellir ei cherdded gydol y flwyddyn ac sy'n eich tywys o ganol Llandysul, ar hyd lonydd gwledig, drwy goetir hynafol ac yn olaf ar hyd glannau'r Afon Teifi. Mae'r rhan fwyaf o'r daith ar hyd lonydd gwledig, ond mae cryn dipyn o ddringo rhiwiau ac mae gradd y daith gerdded yn adlewyrchu hynny. Serch hynny, mae'r rhiwiau yn gwobrwyo'r cerddwr ar ffurf golygfeydd hyfryd dros Ddyffryn Clettwr. Dylid cadw cŵn ar dennyn. Dylid gwisgo esgidiau sy'n addas ar gyfer lonydd gwledig gan fod glan yr afon heb lawer o ddŵr fel arfer.
Addas i: Gerddwyr cymharol heini.
Gradd: B yn unol â'r meini prawf ar dudalen 1.
Cychwyn: Maes parcio (P1) Llandysul, sef OS SN418406. Gellir byrhau'r daith drwy barcio ym maes parcio coetir Coed y Foel (P2), sef OS SN428425.
Lluniaeth: Mae dewis yn Llandysul o gaffis, bwytai a thafarnau traddodiadol (www.llandysul-ponttyweli.co.uk) a lleolir meinciau picnic yn y parc sydd wrth ymyl y maes parcio a'r safle bws.
Toiledau Cyhoeddus: Llandysul – Maes parcio (sy'n hygyrch i bobl anabl ac sy'n meddu ar gyfleusterau newid babanod), sef OS SN418406. Nid oes dim cyfleusterau ym maes parcio coetir Coed y Foel, sef OS SN428425.
Mapiau: Map O/S Explorer 185 1:25000 Castell Newydd Emlyn

Opsiynau pellach:
Opsiwn Byrrach – Dechrau ym maes parcio coetir Coed y Foel (P2) (4km, 1 awr yn fyrrach, ac eithrio seibiannau), ond bydd hyn yn osgoi'r rhan olaf ar hyd glannau'r Afon Teifi brydferth.



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2011.

Disgrifiad manwl o lwybr y daith

Llandysul i'r Afon Cerdin

Trowch i'r dde allan o faes parcio canol tref Llandysul i Stryd yr Eglwys ac yn fuan ar ôl mynd heibio i Westy'r Porth, trowch/ewch i'r dde i gerdded heibio i res o dai ac i lôn wledig (sy'n gul ar adegau). Ar ôl 500 metr, ewch heibio i adeilad mawr fferm/melin ar y chwith (Melin Abercerdin) a thros bont fechan sy'n croesi'r afon Cerdin ①.

Afon Cerdin ar hyd glannau'r Afon Teifi

Yn union ar ôl y bont dros yr Afon Cerdin, ewch drwy giât mochyn ar y dde a chroeswch y cae tua'r dwyrain (mae sticil yn cuddio yn y berth o'ch blaen) tuag at yr Afon Teifi. Trowch i'r chwith (i'r gwrthwyneb i'r llif) a dilynwch yr afon dros chwe sticil i gyrraedd ffordd darmac ② (wrth y bumed sticil, ceir nant fechan a allai fod yn anodd ei chroesi wedi iddi fwrw glaw yn drwm).

***Opsiwn byrrach** – O faes parcio coetir Coed Cadw, sef OS SN428425 (P2), ewch yn ôl i'r heol, trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd i fyny'r rhiw gan fynd heibio i fferm Faerdre Fawr a thŷ Troed-y-Rhiw. Ar ôl tua 200 metr, trowch i'r dde (arwydd Llanfair). Hon yw'r ffordd darmac y disgrifir uchod.*

Afon Teifi ac yn ôl i'r Afon Teifi

Ar y ffordd darmac, trowch i'r dde, ewch heibio i Llanfair Lodge a dilynwch y ffordd i Plas Llanfair. Mae'r ffordd bellach yn dringo'r rhiw yn raddol bach ac mae coed conwydd y naill ochr iddi. Ar ôl ambell i dro cas, mae'r coed yn diflannu ac mae'r daith gerdded yn troi i'r chwith ③ i Gefn Llanfair, (arwydd *Honorwood Flocks Wool and Mohair Showroom*). Mae'r ffordd bellach yn dal i ddringo gan ddilyn trywydd Dyffryn Clettwr i lawr i'r dde tan iddi gyrraedd y ffordd fawr sy'n mynd o Landysul i Gapel Dewi. Ar y gyffordd, trowch i'r chwith, gan fynd heibio i fferm Penrhiw (mainc) a daliwch ati i ddilyn y gwaered, cymerwch y troad nesaf ar y chwith (arwydd Llanfair) ac ailymunwch â'r llwybr wrth ymyl Afon Teifi (mae arwyddion yno).

***Dychwelyd i Faes Parcio Ymddiriedolaeth Coetir Coed Cadw** – peidiwch â chymryd y troad olaf i'r chwith (arwydd Llanfair). Yn hytrach, daliwch i fynd yn syth ymlaen am 550 metr gan fynd heibio i fferm Faedre Fawr i gyrraedd maes parcio Coetir Coed y Foel.*

4. Taith Gogledd Clettwr

Pellter ac amcangyfrif o'r amser: 3.2km (2 filltir) 1 awr, ac eithrio seibiannau. Gellir cydgysylltu sawl un o deithiau cerdded ardal Llandysul i gynyddu neu fyrhau'r pellter cerdded.
Tir: Mae'r daith gerdded fer a chylchog hon yn eich tywys o Eglwys Dewi Sant hyd at Gapel Dewi, tua'r gogledd drwy goetir cymysg sydd wrth ymyl yr Afon Clettwr ac yn ôl i Gapel Dewi. Mae'n daith dawel a dymunol gyda golygfeydd amrywiol a digonedd o fywyd gwyllt. Argymhellir esgidiau cerdded a socasau ar ôl glaw trwm. Dylid cadw cŵn ar dennyn.
Addas i: Gerddwyr cymharol heini.
Gradd: C yn unol â'r meini prawf ar dudalen 1.
Cychwyn: Maes parcio neuadd Eglwys Capel Dewi, sef OS SN452425.
Lluniaeth: Mae dewis yn Llandysul o gaffis, bwytai a thafarnau traddodiadol (www.llandysul-ponttyweli.co.uk) a lleolir meinciau picnic yn y parc sydd wrth ymyl y maes parcio a'r safle bws.
Toiledau Cyhoeddus: Llandysul – Maes parcio (sy'n hygyrch i bobl anabl ac sy'n meddu ar gyfleusterau newid babanod) OS SN418406.
Mapiau: Map O/S Explorer 185 1:25000 Castell Newydd Emlyn

Opsiynau pellach:
Opsiwn hirach – Cyfunwch y daith gerdded hon â thaith rhif 5, sef taith gerdded Dyffryn Clettwr, sy'n 4.5km (2.8 milltir) yn hirach, sef 2 awr ac eithrio seibiannau.



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2011.

Disgrifiad manwl o lwybr y daith

Eglwys Capel Dewi i fferm Henbant Fawr

20 munud: O'r maes parcio, cerddwch i lawr y gwaered (tua'r gorllewin) i groesi'r bont, sef Pont y Foel, dros yr Afon Clettwr. Daliwch i gerdded ar hyd y ffordd am 150 metr arall a chymerwch y troad cyntaf ar y dde (ysgubor). Dilynwch y ffordd hon drwy bentref bach Derlwyn ac, ar ôl mynd heibio i'r tai, cadwch at y llwybr canol (arwydd fferm Henbant Fawr). Ar y fferm, croeswch y buarth drwy giât a throwch i'r dde i fynd heibio i ysgubor agored ① ar y dde.

Fferm Henbant Fawr i fferm Penbanc

15 munud: Dilynwch y llwybr drwy giât ac ewch i lawr i rannau isaf y goedwig (Planhigfa Bryngolau). Dilynwch y llwybr am 450 metr i dŷ segur ac ewch drwy'r giât ar y dde i gae. Croeswch y caeau yn groes-gongl tua'r chwith tuag at ffin chwith y cae (dwy ffens ymochrol) gyda giât mochyn a giât arall. Croeswch y cae nesaf yn groes-gongl tua'r dde tuag at yr afon a phont. Croeswch yr afon ac wedyn ewch drwy'r giât sy'n syth o'ch blaen a dilynwch lwybr anelwig tua'r chwith i gyrraedd giât a chae. Ewch drwy'r giât, trowch i'r dde a dringwch riw i gyrraedd y llwybr ② sy'n arwain at giât a mynedfa fferm Penbanc.

Fferm Penbanc i Gapel Dewi

25 munud: Ewch drwy'r giât a dilynwch lwybr y fferm tua'r chwith heibio i adeiladau'r fferm i gyrraedd yr heol. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd am 1km yn ôl i Gapel Dewi.

5. Taith Dyffryn Clettwr

Pellter ac amcangyfrif o'r amser: 4.8km (3 milltir), 2 awr ac eithrio seibiannau. Gellir cydgysylltu sawl un o deithiau cerdded ardal Llandysul i gynyddu neu fyrhau'r pellter cerdded.
Tir: Mae'r daith gerdded brydferth hon yn eich tywys o Eglwys Dewi Sant hyd at Gapel Dewi, tua'r de ar hyd Dyffryn Clettwr ac yn rhoi golygfeydd hyfryd o'r tirwedd o gwmpas. Argymhellir esgidiau cerdded a socasau ar ôl glaw trwm. Dylid cadw cŵn ar dennyn.
Addas i: Gerddwyr cymharol heini.
Gradd: C yn unol â'r meini prawf ar dudalen 1.
Cychwyn: Maes parcio neuadd Eglwys Capel Dewi, sef OS SN452425.
Lluniaeth: Mae dewis yn Llandysul o gaffis, bwytai a thafarnau traddodiadol (www.llandysul-ponttyweli.co.uk) a lleolir meinciau picnic yn y parc sydd wrth ymyl y maes parcio a'r safle bws.
Toiledau Cyhoeddus: Llandysul – Maes parcio (sy'n hygyrch i bobl anabl ac sy'n meddu ar gyfleusterau newid babanod) OS SN418406.
Mapiau: Map O/S Explorer 185 1:25000 Castell Newydd Emlyn

Opsiynau pellach:
Opsiwn hirach – Cyfunwch y daith hon â:
- Thaith gerdded rhif 4, sef Gogledd Dyffryn Clettwr (3.2km/2 filltir, 1 awr ychwanegol, heb seibiannau).

Mae ffordd wahanol o gerdded y daith sy'n defnyddio'r un man cychwyn ac sy'n estyn ychydig ar y daith (fe'i nodir ar y map)



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2011.

Disgrifiad manwl o lwybr y daith

Capel Dewi i fferm Penpompren

30 munud: Trowch i'r chwith o faes parcio neuadd yr Eglwys a throwch i'r dde, gyferbyn â mynedfa Eglwys Dewi Sant, i ddringo stepiau wrth ymyl tŷ. Ar y ffordd (B4459), trowch i'r dde a dilynwch hi am 1.15km i fferm Penpompren.

Fferm Penpompren i Feillion Bach

45 munud: 150 metr wedi mynd heibio i fferm Penpompren, trowch i'r dde ① i lwybr sydd â giât ato a choed ar hyd-ddo (mae arwydd) a pharhewch drwy ddwy giât. 10 metr ar ôl yr ail giât, ewch drwy giât fechan ag arwydd ati tua'r chwith a pharhewch yn syth ymlaen i'r Afon Clettwr. Croeswch y bont droed (sticil) a dilynwch y llwybr drwy'r goedwig (tŷ haf yn y coed ar y dde). Ar ôl 200 metr, croeswch sticil i'r dde i giât fetel a throwch yn syth i'r dde i gymryd llwybr cyhoeddus anelwig sy'n dringo rhiw. 20 metr cyn y bydd ffin dde'r cae yn troi'n sydyn i'r dde, trowch i'r chwith a cherddwch i fyny'r rhiw ② (i'r chwith i hen berth anelwig/trywydd ffin cae) i gyrraedd ffin y cae. Ewch dros ben sticil (lle y gall fod gordyfiant) a dringwch y rhiw i gyrraedd giât yng nghanol ffin nesaf y cae. Cerddwch i gornel dde uchaf y cae nesaf. Ewch drwy'r giât a throwch i'r chwith dros sticil i'r heol. Trowch ar y dde i'r heol a dilynwch hi am 225 metr hyd at giât sydd ar ôl tŷ Meillion Bach ac ysgubor, ③ ac o flaen tro i'r chwith.

Meillion Bach i Gapel Dewi

45 munud: Ewch i mewn i fuarth fechan/cae a chroeswch (30 metr) i sticil (mae arwydd) yn y ffens i'r chwith i giât. Dilynwch ffin dde'r cae i groesi sticil (mae arwydd) a pharhewch ar hyd ffin dde'r cae nesaf i'r goedwig. Dilynwch ymyl y goedwig i'r fan lle bo'n troi i'r dde ④ ac yn mynd i lawr y gwaered heibio i bentwr o gerrig hyd at sticil. Cymerwch lwybr grisiog sy'n arwain i lawr y gwaered a thua'r chwith. Croeswch sticil i lôn wledig a throwch i'r dde heibio i Fwthyn Pant yr Aethren a sawl ysgubor sydd wedi'u haddasu hyd at Gapel Dewi (1.4km).

6. Cylchdaith Coedwig Coed y Foel i Gapel Dewi

Pellter ac amcangyfrif o'r amser: 13.1km (8 milltir) 4½ awr ac eithrio seibiannau. Gellir cydgysylltu sawl un o deithiau cerdded ardal Llandysul i gynyddu neu fyrhau'r pellter cerdded.
Tir: Mae'r daith gerdded hon yn eich tywys drwy heddwch a thawelwch Coedwig Coed y Foel, i dir amaeth agored, heibio i'r Afon Cletwr, drwy bentref bach cysglyd Capel Dewi ac ar hyd lonydd gwledig. Mae'r daith mewn lleoliad tawel a phrydferth gyda golygfeydd amrywiol a phleserus sy'n fendigedig o'r mannau uchaf. Dylid cadw cŵn ar dennyn ar y darnau sy'n mynd drwy dir amaeth.
Addas i: Gerddwyr cymharol heini.
Gradd: A/B yn unol â'r meini prawf ar dudalen 1.
Cychwyn: Maes parcio tref Llandysul, sef OS SN418406.
Hefyd, mae modd cychwyn o faes parcio coetir Coed y Foel, sef ON SN428425 neu neuadd Eglwys Capel Dewi, sef OS SN452425.
Lluniaeth: Mae dewis yn Llandysul o gaffis, bwytai a thafarnau traddodiadol (www.llandysul-ponttyweli.co.uk) a lleolir meinciau picnic yn y parc sydd wrth ymyl y maes parcio a'r safle bws.
Toiledau Cyhoeddus: Llandysul – Maes parcio (sy'n hygyrch i bobl anabl ac sy'n meddu ar gyfleusterau newid babanod) OS SN418406.
Mapiau: Map O/S Explorer 185 1:25000 Castell Newydd Emlyn.

Opsiynau pellach:
Opsiynau byrrach –
- Dechrau ym maes parcio Coetir Coed Cadw (4km, 1 awr yn fyrrach, ac eithrio seibiannau).
- Dilyn taith gerdded rhif 2, sef Taith Gerdded Cefn Gwlad a Choetir Coed y Foel, ar ôl fferm Blaencwm (4km, 1 awr yn fyrrach, ac eithrio seibiannau).

Opsiynau hirach –
Cyfunwch hi â'r naill neu'r llall o'r teithiau cerdded canlynol:
- Dilyn rhan o daith gerdded rhif 5, sef Taith Gerdded Dyffryn Clettwr, (4.5km, 1½ awr yn ychwanegol ac eithrio seibiannau).
- Dilyn rhan o daith gerdded rhif 3, sef Dolen Teifi, (3.0km, 1 awr yn hirach, ac eithrio seibiannau).



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2011.

Disgrifiad manwl o lwybr y daith

Llandysul i Faes Parcio Coetir Coed Cadw

20 munud: ***(P2) (ni ddangosir y rhan hon ar y map – gweler taith gerdded rhif 2 am y map)*** – Trowch i'r dde allan o faes parcio canol tref Llandysul i Stryd yr Eglwys ac yn fuan ar ôl mynd heibio i Westy'r Porth, trowch/ewch i'r dde i gerdded heibio i res o dai ac i lôn wledig (sy'n gul ar adegau). Ar ôl 500 metr, ewch heibio i adeilad mawr fferm/melin ar y chwith (Melin Abercerdin) a thros bont fechan sy'n croesi'r afon Cerdin. Ar ôl 160 metr, trowch i'r dde (arwydd Capel Dewi) a dilynwch y ffordd heibio i goedwig Dan-Coed Mawr a thŷ Bryn Teifi tan iddi droi tua'r chwith a dechrau dringo rhiw serth. Mae maes parcio Ymddiriedolaeth Coetir Coed Cadw ar y chwith yn union ar ôl nant fechan.

Maes parcio Ymddiriedolaeth Coetir Coed y Foel i Goedfoel Uchaf

45 munud: O gefn y maes parcio ① (giât a bwrdd gwybodaeth), dilynwch y llwybr, (gan groesi nant), i fynd i mewn i'r goedwig a dilynwch y llwybr drwy waelod y goedwig. Ar ôl 700 metr, mae'r llwybr yn troi'n sydyn i'r chwith ac yn dringo rhiw am sawl metr cyn gwyro yn ôl i'r dde (mainc). Ar ôl 100 metr, mae'r llwybr yn troi yn sydyn tua'r dde (mae arwydd) ac yn mynd i lawr dros gyfres o stepiau. Ar y gwaelod, trowch i'r dde a dilynwch lwybr ag arno arwyddion sy'n arwain yn ôl yn y diwedd i'r chwith at nant (cenllif fechan ar ôl iddi fwrw glaw trwm). Croeswch y nant ac ewch yn igam-ogam i fyny'r rhiw at giât a llwybr coedwig, trowch i'r dde i'r llwybr ac, ar ôl 30 metr, cymerwch y llwybr sy'n torri'n ôl yn sydyn tua'r chwith ② a dilynwch ef at sticil a giât. Croeswch y cae gan ddringo rhiw bychan i fynd drwy giât mochyn a dilynwch ffin dde'r cae i lidiart fawr fferm. Ewch drwy'r llidiart a chroeswch waelod y cae nesaf (nant fechan o bosib wedi iddi fwrw glaw yn drwm) i gyrraedd giât yn y gornel chwith ar y gwaelod. Ewch drwy'r giât, trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i fyny'r rhiw.

Coed Foel Uchaf i fferm Blaencwm

30 munud: Lle bo'r ffordd yn troi'n sydyn tua'r chwith ③, parhewch yn syth ymlaen drwy giât ac, ar ôl 100 metr, drwy giât arall. Dilynwch ffin dde'r cae i giât fechan a sticil. Dilynwch ffin dde'r cae gan groesi sticil ddwbl a thair sticil arall i gyrraedd heol fferm (carafan) i fferm Blaencwm.

Ffordd arall o fynd sy'n fyrrach: *Dilyn taith gerdded rhif 2, sef Taith gerdded Cefn Gwlad a Choetir Coed y Foel, ar ôl fferm Blaencwm (4km 1 awr yn fyrrach, ac eithrio seibiannau).*

Fferm Blaencwm i fferm Henbant Fawr

20 munud: Ewch drwy giât sydd yr ochr arall i heol y fferm a chroeswch y cae yn groes-gongl tua'r dde, i giât fechan yn ffin dde'r cae. Ewch drwy'r giât, croeswch y lôn ac ewch drwy giât fawr. Dilynwch ffin chwith y cae (gan fynd heibio i sticil) i sticil sy'n cuddio yng nghornel chwith y cae. Croeswch y sticil a dilynwch ffin chwith y cae hyd at ei diwedd ac wedyn, croeswch y cae yn uniongyrchol, hyd at sticil. Croeswch y cae nesaf i ddilyn ffin chwith y cae ④ hyd at gornel a giât. Dilynwch ffin dde'r cae hyd at giât a fferm segur (Bancyrhenbant). Cerddwch heibio i'r fferm a dilynwch ffin dde'r cae i gyrraedd cornel (giât) dde gwaelod y cae. Ewch drwy'r giât a dilynwch y llwybr i lawr y gwaered gan fynd heibio i sawl tro cas i gyrraedd fferm Henbant Fawr.

Fferm Henbant Fawr i fferm Penbanc

15 munud: Yn union cyn mynd i mewn i fuarth y fferm, trowch i'r chwith a dilynwch lwybr sy'n mynd heibio i ysgubor ar y dde ⑤. Dilynwch y llwybr drwy giât ac ewch i lawr i rannau isaf y goedwig (Planhigfa Bryngolau). Dilynwch y llwybr am 450 metr i dŷ segur ac ewch drwy'r giât ar y dde i gae. Croeswch y caeau yn groes-gongl tua'r chwith tuag at ffin chwith y cae (dwy ffens ymochrol) gyda giât mochyn a giât arall. Croeswch y cae nesaf yn groes-gongl tua'r dde tuag at yr afon a phont. Croeswch yr afon ac wedyn ewch drwy'r giât sy'n syth o'ch blaen a dilynwch lwybr anelwig i gyrraedd giât a chae. Ewch drwy'r giât, trowch i'r dde a dringwch riw i gyrraedd y llwybr sy'n arwain at giât a mynedfa fferm Penbanc.

Fferm Penbanc i Gapel Dewi

25 munud: Ewch drwy'r giât a dilynwch lwybr y fferm tua'r chwith heibio i adeiladau fferm i gyrraedd yr heol. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd am 1km yn ôl i Gapel Dewi.

Eglwys Capel Dewi i'r Afon Teifi

1 awr: O Eglwys Dewi Sant, ewch i lawr i'r bont dros yr Afon Clettwr ⑥ a pharhewch ar hyd yr isffordd heibio i fynedfa Melin y Graig a heibio i droad Derlwyn (ysgubor). 900 metr ar ôl y bont, ewch heibio i droadau Nantegryd a Chwmtegryd; mae'r ffordd bellach yn troi i fyny'r rhiw yn sydyn tua'r dde ac yn òl i'r chwith. Ar ôl 800 metr arall, ewch heibio i fferm Pen-Rhiw, disgynnwch am 600 metr a chymerwch y troad i'r chwith (arwydd Llanfair).

Dychwelyd i Landysul i Faes Parcio Ymddiriedolaeth Coed Cadw *– Mae modd dychwelyd o'r fan hon i faes parcio coetir Coed y Foel – peidiwch â throi i'r chwith i Lanfair, parhewch yn syth ymlaen heibio i fferm Faedre Fawr i gyrraedd y maes parcio.*

Afon Teifi i Landysul (gweler map taith gerdded rhif 3)

30 munud: Ar ôl 100 metr, trowch i'r dde, croeswch sticil a dilynwch lan yr afon. Yn union ar ôl y chweched sticil, trowch i'r dde a chwiliwch am sticil sy'n cuddio yn y berth (gellir gweld Melin Abercerdin o'ch blaen). Dilynwch lwybr anelwig yn ôl i'r ffordd a'r bont dros yr Afon Cerdin. Ewch yn ôl i Landysul.

7. Taith Gogledd Llandysul/ Pont-Tyweli

Pellter ac amcangyfrif o'r amser: 6.5km (4 milltir) 2½–3 awr, ac eithrio seibiannau. Gellir cydgysylltu sawl un o deithiau cerdded ardal Llandysul i gynyddu neu fyrhau'r pellter cerdded.
Tir: Gellir gwneud y daith hon gydol y flwyddyn ac mae'n eich tywys drwy dir parc, lonydd gwledig, ar draws tir amaeth agored sydd â golygfeydd braf ar draws Llandysul, Dyffryn Clettwr a bryniau Sir Gaerfyrddin. Mae rhiwiau serth i'w dringo ar rai rhannau o'r daith. Argymhellir esgidiau cerdded a socasau ar ôl glaw trwm. Dylid cadw cŵn ar dennyn.
Addas i: Unrhyw un.
Gradd: C yn unol â'r meini prawf ar dudalen 1.
Cychwyn: Maes parcio canol tref Llandysul, sef OS SN418406.
Lluniaeth: Mae dewis yn Llandysul o gaffis, bwytai a thafarnau traddodiadol (www.llandysul-ponttyweli.co.uk) a lleolir meinciau picnic yn y parc sydd wrth ymyl y maes parcio a'r safle bws.
Toiledau Cyhoeddus: Llandysul – Maes parcio (sy'n hygyrch i bobl anabl ac sy'n meddu ar gyfleusterau newid babanod) OS SN418406.
Mapiau: Map O/S Explorer 185 1:25000 Castell Newydd Emlyn.

Opsiynau pellach:
Opsiynau Hirach – Cyfunwch y daith gerdded hon â:
- Rhan o daith gerdded rhif 8, sef Gogledd Llandysul/Pont Tyweli (5km, 2 awr yn hirach, ac eithrio seibiannau).
- Ar y dechrau neu'r diwedd, ychwanegwch daith gerdded rhif 1, sef taith gerdded hanesyddol tref Llandysul (1.6km, 1 awr, ac eithrio seibiannau).



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2011.

Disgrifiad manwl o lwybr y daith

Maes parcio Llandysul i Goedwig Fron-goch

Gadewch y maes parcio yng nghanol tref Llandysul a throwch i'r chwith i'r Heol Newydd. Ar ôl 300 metr, trowch i'r chwith i Stryd y Bont a chroeswch y bont dros yr Afon Teifi. Trowch i'r chwith yn union ar ôl siop gweithgareddau awyr agored Padlwyr Llandysul a cherddwch i'r dde i ystordy Padlwyr Llandysul. Dilynwch lan yr afon heibio i lyn artiffisial, dros bompren droed a chroeswch sticil. Dilynwch lwybr sydd ag arwyddion i fyny'r rhiw hyd at giât a sticil yn union i'r dde i dŷ Tanrallt. Trowch i'r chwith i'r ffordd. Cerddwch ar hyd y ffordd sydd â choedwig Allt Dôl-Llan ar y dde. Ar ôl 150 metr, mae'r ffordd yn tynnu tua'r dde ① heibio i fynedfa'r *Three B Stud* ac yn cychwyn dringo rhiw serth. Ewch heibio i fynedfa tŷ Dolhuan a thŷ Beechwood, ac wrth i'r ffordd wastadu, ewch heibio i Feithrinfa'r Buarth Fferm. Ar ôl 700 metr, mae'r ffordd yn mynd tua'r dde ac yn cychwyn dringo'n araf bach heibio i Goedwig Allt Fron-goch.

Coedwig Allt Fron-goch i fferm Penrhiw

Yn fuan ar ôl Coedwig Fron-goch a 25 metr cyn fferm Fron-goch, ewch drwy giât ② ar y dde a dilynwch hen lwybr tua'r chwith i hen lidiart fferm haearn. Dilynwch y llwybr anelwig ar eich hyd ar draws ochr y bryn ac, wrth ffin y cae, trowch i'r dde ac ewch i fyny i sticil sydd yn y gornel chwith yn y pen uchaf. Croeswch y cae nesaf yn groes-gongl tua'r dde at giât fetel. Ewch i mewn i lwybr fferm llydan a pharhewch yn syth i lawr y gwaered (2 giât) drwy fferm Penrhiw a'r ffordd fawr.

Fferm Penrhiw i'r rheilffordd segur

Croeswch y ffordd brysur yn ofalus i giât (mae arwydd) a dilynwch y llwybr ar draws pen uchaf y cae ac i'r goedwig. ***(Ffordd arall o fynd*** *– trowch i'r dde allan o fferm Penrhiw a dilynwch y ffordd am 250 metr i groesi sticil i fynd i mewn i'r goedwig. Disgynnwch ar hyd stepiau i gyrraedd y llwybr a ddisgrifir uchod)*. Mae'r llwybr yn mynd yn raddol i lawr gwaered am 200 metr i gyfarfod â llwybr coedwig arall. Trowch i'r chwith ac ewch i lawr i gae gyda'r afon ar y dde ③. Croeswch y cae yn groes-gongl i'r gornel chwith a phont. Croeswch y bont a sticil i gyrraedd y rheilffordd segur.

Rheilffordd segur i Landysul

Yn anffodus, nid yw rhan gychwynnol llwybr y rheilffordd yn hawl tramwy. Yn hytrach, croeswch y sticil yr ochr arall i'r llwybr a dilynwch ffin y cae (Afon Gwyddil) i giât mochyn a'r ffordd fawr. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd am 150 metr i giât mochyn ④ ac ailymunwch â llinell y rheilffordd. Dilynwch y rheilffordd am 1.3km i gyrraedd y ffordd fawr (cerddwch i'r dde i hen ffensys pan neshawch at y ffordd), trowch i'r dde a chroeswch y drosffordd. Dilynwch y ffordd am 250 metr i'r gyffordd (Tafarn Half Moon), trowch i'r dde a dilynwch y ffordd drwy Bont-Tyweli i'r bont dros yr Afon Teifi. Ewch yn ôl i'r maes parcio.

8. Taith De Llandysul/ Pont-Tyweli

Pellter ac amcangyfrif o'r amser: 9km (5.6 milltir) 2½ awr ac eithrio seibiannau. Gellir cydgysylltu sawl un o deithiau cerdded ardal Llandysul i gynyddu neu fyrhau'r pellter cerdded.
Tir: Mae'r daith gerdded hon yn dilyn y rheilffordd segur sydd wrth ymyl yr Afon Tyweli, drwy goetir hudolus, ar hyd lonydd gwledig ac ar draws tir amaeth agored sy'n rhoi golygfeydd braf ar draws y dyffryn i Sir Gaerfyrddin a bryniau Sir Benfro. Mae rhiwiau serth i'w dringo ar rai rhannau o'r daith. Argymhellir esgidiau cerdded a socasau ar ôl glaw trwm. Dylid cadw cŵn ar dennyn.
Addas i: Gerddwyr cymharol heini.
Gradd: B yn unol â'r meini prawf ar dudalen 1.
Cychwyn: Maes parcio canol tref Llandysul, sef OS SN418406.
Lluniaeth: Mae dewis yn Llandysul o gaffis, bwytai a thafarnau traddodiadol (www.llandysul-ponttyweli.co.uk) a lleolir meinciau picnic yn y parc sydd wrth ymyl y maes parcio a'r safle bws.
Toiledau Cyhoeddus: Llandysul – Maes parcio (sy'n hygyrch i bobl anabl ac sy'n meddu ar gyfleusterau newid babanod) OS SN418406.
Mapiau: Map O/S Explorer 185 1:25000 Castell Newydd Emlyn.

Opsiynau pellach:
Opsiynau hirach – Cyfunwch y daith hon â:
- Thaith gerdded rhif 7, sef Taith Gerdded Gogledd Llandysul/ Pont-Tyweli (4km, 1½ awr yn hirach ac eithrio seibiannau).
- Ar ddechrau neu ar ddiwedd y daith gerdded, rhowch gynnig ar gaith gerdded rhif 1, sef taith gerdded hanesyddol tref Llandysul (1.6km, 1 awr yn hirach ac eithrio seibiannau).



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2011.

Disgrifiad manwl o lwybr y daith

Maes parcio Llandysul i'r rheilffordd segur

Gadewch y maes parcio yng nghanol tref Llandysul a throwch i'r chwith i'r Heol Newydd. Ar ôl 300 metr, trowch i'r chwith i Stryd y Bont a chroeswch bont Llandysul dros yr Afon Teifi. Trowch i'r dde a pharhewch ar hyd y ffordd am 300 metr, gan fynd heibio i dŷ bynciau Padlwyr Llandysul a Chanolfan Gelfyddydol a Chymunedol y Pwerdy. Wrth dafarn yr Half Moon, trowch i'r chwith a dilynwch Heol y Dderwen am 250 metr. Croeswch y ffordd osgoi newydd a throwch i'r chwith ar unwaith (mae arwydd) ① i lôn gul sy'n arwain i lawr at gledrau rheilffordd segur.

Rheilffordd segur i fferm Penpistyll

Dilynwch linell y rheilffordd segur am 1.3km hyd at giât. Ewch drwy'r giât mochyn sydd i'r dde iddi a throwch i'r chwith i ddilyn y ffordd heibio i dŷ Tŷpoeth a Bwthyn Tŷpoeth. Trowch i'r dde wrth y gyffordd nesaf ② ac, ar ôl 25 metr, cymerwch y lôn sy'n dwyn yr arwydd Felin Gwyddil. Ewch heibio i dŷ Felin Gwyddil a thŷ Penpynfarch cyn mynd i lawr at y nant. Croeswch y nant drwy'r dŵr *(fel arall, trowch i'r chwith ac, ar ôl 30 metr, croeswch bont. Ewch i fyny'r llwybr am 60 metr i gyrraedd llwybr y goedwig sy'n mynd tua'r chwith)* a dilynwch y llwybr fesul tipyn i'r chwith ac i fyny'r rhiw am 150 metr. Trowch yn sydyn i'r dde i'r llwybr nesaf, ac wrth y tro cas nesaf i'r chwith yn llwybr y goedwig, parhewch yn syth ymlaen. Croeswch sticil ar ôl 100 metr i lwybr cul sydd wedi gordyfu ychydig (ffens wifrau i'r dde) sy'n troi'n araf tua'r chwith ③ ac yn dringo rhiw yn araf bach ar hyd dyffryn cul a nant. Ar ben uchaf y llwybr, ewch drwy giât, trowch i'r chwith i fynd i mewn i fuarth Penpistyll ac wedyn cymerwch yr allanfa sydd ar y dde i'r ffermdy.

Fferm Penpistyll i faes parcio Llandysul

Cerddwch ar hyd lôn y fferm i'r heol, trowch ar y chwith ac, ar ôl 50 metr, trowch i'r dde ④ i lawr llwybr llydan (Blaengwrfach Isaf). Ar ôl 250 metr, cymerwch giât mochyn ar y dde (mae arwydd), dilynwch ffens y ffin chwith hyd at giât fetel ac ewch drwyddi. Croeswch ben uchaf y cae nesaf i gyrraedd llwybr fferm (giât) wrth goedlan fechan. Wrth gyffordd y llwybr/lôn wrth fferm Llwyn Ffynnon Uchaf, trowch i'r dde a dilynwch y lôn i'r ffordd fawr. Trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd fawr am 600 metr i iard lo ⑤ ar y dde a giât mochyn. Disgynnwch drwy'r cae gan ddilyn ffin dde'r cae (pyst ffensys hanner y ffordd) ac ewch drwy giât mochyn yn y gornel dde ar y gwaelod. Dilynwch ffin dde'r cae sy'n disgyn ar hyd gwaered serth i'r gornel dde ar y gwaelod ynghyd â giât mochyn. Trowch i'r chwith i'r ffordd sy'n mynd heibio i fferm Troed Rhiw Fawr ac, wrth y gyffordd nesaf (30 metr), parhewch yn syth ymlaen (Heol y Dderwen), gan fynd heibio i sawl tŷ, i groesi'r drosffordd ar ôl 500 metr. Wrth y gyffordd nesaf (tafarn yr Half Moon), trowch ar y dde a dilynwch y ffordd am 320 metr hyd at y bont. Ewch yn ôl i faes parcio Llandysul am weddill y daith.